
GRŴP DARGANFOD HEN DAI CYMREIG DISCOVERING OLD WELSH HOUSES GROUP

Dathlu Treftadaeth Cymru drwy astudio tai traddodiadol a bywydau'r bobl fu'n byw ynddynt.

CYLCHLYTHYR 21

Mehefin 2017

EIN GWEFAN <http://discoveringoldwelshhouses.co.uk> yw prif sianel gyfathrebu'r Grŵp – defnyddiwch hi i weld mwy o fanylion am y digwyddiadau diweddar a'r rhai sydd ar ddod, ac i edrych ar ein llyfrgell sy'n cynyddu'n gyson ac ar nodweddion eraill.

NEWYDDION DIWEDDARAF

Gydol y gwanwyn buom yn brysur yn cwblhau adroddiadau'r flwyddyn flaenorol a'n ceisiadau am grantiau ar gyfer 2017-18. Rhoddwyd sawl sgwrs ac mae'r sgysiau hyn yn arwain at newyddion a gwahoddiadau i hen dai diddorol. Yn ddiweddar, ymwelwyd â thŷ neuadd nenfforch o ffrâm goed nas cofnodwyd, ac rydym yn edrych ymlaen at ei astudio. A fedrwyd chi ein helpu drwy ddweud wrthym am dai gwirioneddol hen yn eich hardal?



Dolbelydr

Mae ail flwyddyn **PROSIECT G Ddn CYMRU** bellach ar droed ac yn denu cryn ddiddordeb trigolion lleol a pherchenogion tai Siroedd Ddinbych a'r Fflint: ac rydym bob amser yn chwilio am gynorthwywyr ychwanegol o'r ardal. Mae amrywiol fentrau yn yr arfaeth a bydd y manylion llawn yn cael eu dosbarthu yn hwyrach yn y flwyddyn.

GOLYGYDD Y CYLCHLYTHYR: Bydd ein golygydd presennol yn ymddeol yn fuan ac rydym yn chwilio am rhywun i lenwi'r swydd bwysig hon. Os ydych â diddordeb neu yn gallu awgrymu rhywun, cysylltwch â 01766 890550 am wybodaeth bellach.

GRANTIAU: Rydym yn cydnabod yn ddiolchgar grantiau

Celebrating Welsh Heritage through the study of traditional houses and the lives of the people who lived in them.

NEWSLETTER 21

June 2017

OUR WEBSITE <http://discoveringoldwelshhouses.co.uk> is the Group's main channel of communication – please visit it to see details of recent and forthcoming events and to look at our growing library and other features.

NEWS UPDATE

Over the spring we have been busy completing the previous year's reports and applying for grants for 2017-18. Many more talks have been given; these often result in news about and invitations to interesting old houses. We have recently visited a previously unrecorded timber-framed cruck hall-house and look forward to studying it. Can you help by telling us of really old houses in your area?



Offer coginio / Implements of cookery. Gweler tud.4 / See p4.

The **N E WALES PROJECT** year 2 is now underway with much interest shown from local people and house owners in Denbighshire and Flintshire: we are always looking for additional helpers from the area. Various initiatives are in the pipeline and full details will be circulated later in the year.

NEWSLETTER EDITOR: Our current editor will soon be retiring and we are looking for someone to take over this important role. If you are interested or can suggest someone, please contact 01766 890550 for further information.

GRANTS: We gratefully acknowledge new grants from the



newydd o Gronfa Marc Fitch, Cymdeithas Hynafiaethwyr Llundain, CBA Cymru a'r Grŵp Pensaernïaeth Frodorol, ac rydym yn aros am ganlyniadau ceisiadau eraill. Rydym hefyd yn ddiolchgar am grant Parc Cenedlaethol Eryri tuag at y Cylchlythyr.

OS YDYCH Â DIDDORDEB MEWN HEN DAI ond ddim eto yn aelod, pam na ystyriwch ymuno a'r Grŵp? Ysgrifennydd Aelodaeth yw Ms Zoë Henderson 01824 704404 zoehenderson123@btinternet.com. Am wybodaeth bellach cysylltwch â Margaret Dunn, yr Ysgrifenyddes secretary@discoveringgoldwelshhouses.co.uk 01766 890550.

DIGWYDDIADAU GRŴP

Gwener 23 Meh yn y Stablau, Plas Tan-y-bwlch, Maentwrog. 2.00yp CCB (AGM); 3.00yp Y **Ddarlith Gyhoeddus Flynyddol** gan Dr Eurwyn Wiliam MA, PhD, FSA, cadeirydd CBHC: 'Tri chawr: Iorwerth Peate, Cyril Fox a Peter Smith, ac astudiaeth o bensaernïaeth frodorol yng Nghymru' (yn Saesneg). Lluniaeth ac arddangosfeydd. Does dim angen archebu. Defnyddiwch faes parcio'r ardd isaf. **Sul 9 Gorff** Sêl Cist Car yn y bore ar faes awyr Mona, Ynys Môn. Gall pob cangen ddod ag eitemau i'w gwerthu i gynyddu cronfeydd y Grwpiau. Cysylltwch â Richard am fanylion: 01248 750752. **Sad 22 Gorff** hanner dydd-4yp Teithiau tywysedig ym Mhlas Penmynydd, Llangefni LL77 7SH. Rhan o'r Wyl Archeoleg. Gwerthfawrogir yn fawr unrhyw fath o gymorth. Cost £5 y pen. Dowch â phicnic. Manylion llawn i ddod ac oddi wrth 01766 890550. Dim angen archebu. NGR SH 496753. Dilynwch fford B5420 Porthaethwy – Llangefni; a ½ milltir i'r dwyrain o Llangefni, ger gwaelod allt Ceint, trowch ar hyd trac fferm gwastad 600 llath ar gyfer gollwng teithwyr a pharcio i'r anabl. Y prif faes parcio yn y cae oddi ar y ffordd gyferbyn â thrac fferm – gweler baner.



Llwyn y Cynfal

Ymweliad grŵp â Stokesay: Yn anffodus, profwyd bod yr archebion ar gyfer Trip Dyddiol Grŵp a gynlluniwyd ar gyfer 22 Mai i Gastell Stokesay a Fferm Acton Scott yn rhy isel i gyfiawnhau'r costau ac felly fe ganslwyd y daith. Fodd bynnag, gall y bydd aelodau'r flwyddyn nesaf yn awyddus i ymuno â ni ar Daith Diwrnod neu Daith Astudio arall dros 2 neu 3 diwrnod, a buasai'n dda o beth cael syniad o rai o'r manau ymweld a fuasai'n denu'r aelodau. Felly, gofynnwn i'r holl aelodau feddwl am hyn ac anfon eu syniadau at gynrychiolwyr y Canghennau yn y cyfarfod nesaf, erbyn 30 Mehefin.

Marc Fitch Fund, the Society of Antiquaries of London, the CBA Wales and the Vernacular Architecture Group; we await the results of other applications. We are also grateful for a grant from the Snowdonia National Park towards the Newsletter.

IF YOU ARE INTERESTED IN OLD HOUSES and are not already a member, why not consider joining the Group? The Membership Secretary is Ms Zoë Henderson zoehenderson123@btinternet.com 01824 704404. For further information contact Margaret Dunn, Secretary secretary@discoveringgoldwelshhouses.co.uk 01766 890550.

GROUP EVENTS

Fri 23rd June at Y Stablau, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog LL41 3YU: 2.00 pm **AGM**; 3.00 pm the **Annual Public Lecture** 'Three giants: Iorwerth Peate, Cyril Fox and Peter Smith, and the study of vernacular architecture in Wales' will be given (in English) by Dr Eurwyn Wiliam MA, PhD, FSA, RCAHMW chair. Refreshments & displays. No booking necessary. Use lower garden car park. **Sun 9th July** Morning Car Boot Sale at Mona airfield, Anglesey. Each branch might bring items to sell to raise Group funds. Contact Richard for details: 01248 750752. **Sat 22nd July** noon-4pm Guided tours at Plas Penmynydd, Llangefni LL77 7SH. Part of the Festival of Archaeology. Any offers of help would be greatly appreciated. Cost £5 per head. Bring a picnic. Full details later & from 01766 890550. No booking necessary. NGR SH 496753. Follow B5420 Menai Bridge – Llangefni road; ½ mile east of Llangefni, near bottom of hill at Ceint, turn along level 600 yd farm track to end for drop off & disabled parking. Main parking in field off road opposite farm track – see flag.



NE Wales

Group visit to Stokesay: Unfortunately, bookings for the Group Day Trip planned for May 22nd to Stokesay Castle and Acton Scott Farm proved too low to justify the costs involved and the day was therefore cancelled. However, next year members may be interested in joining us on another Day Tour or Study Tour over 2 or 3 days, and it would be very helpful to have some idea of the venues that people would find most attractive. We would therefore ask all members to have a think about this and to pass on their ideas to their Branch reps at their next meeting, by 30th June, please.

DIGWYDDIADAU CANGEN: archebwch â chysylltydd cangen, fel arfer@ £2.

CANGEN MÔN- ARFON

Cyswllt: Peter Masters: datinggoldwelshhouses@gmail.com 01758 750322. Anfonwch unrhyw syniadau ar gyfer cyfarfodydd at Peter.

CANGEN CONWY

Cyswllt: Tony Scharer: tonyscharer@gmail.com 01745 813027. **Mawrth 20 Mehefin** gyda Martin Cherry: sgwrs ddarluniadol ar bensaerniaeth hen dai yng Ngogledd Cymru. 2yp yn nhŷ Ann ym Mae Penrhyn. **Mawrth 11 Gorffennaf** – Taith dan arweiniad o amgylch Dinbych gyda Tony Scharer. Cyfarfod am 2yp ger Tŵr Eglwys Sant Ilar ger y castell yn Ninbych. Ceir maes parcio am ddim gerllaw. Yn para rhyw 2 awr, a'r pellter tua 1 filltir. **Awst** Dim cyfarfod.

CANGEN SIR DDINBYCH

Cyswllt: Janice Dale: jadale22@hotmail.co.uk 01490 440427 **Gwener 16 Mehefin** yn nhŷ aelod (manyion gan Janice) – nifer yn hollol gyfyngedig i 10. Dim cyfarfodydd yng Ngorffennaf nac Awst. **Iau 7 Medi** yn nhŷ aelod. **Iau 9 Tachwedd** Hostel Ieuenctid Cynwyd (i ddo).

CANGEN MEIRIONNYDD

Cyswllt: John Townsend: john@thetownsends.org.uk 01341 430262. Digwyddiad **Mehefin** eto i'w gadarnhau. Gwiriwch y dudalen 'Ymweliadau' ar wefan GDHDC i gael y wybodaeth ddiweddaraf. **Sul 23 Gorffennaf** am 2.30yp: digwyddiad Cymdeithasol yr Haf Cangen Meirionnydd ym Modwylan, Llwyngwrl. Trefnir cludiant o faes parcio Llwyngwrl. Cysylltwch â John Townsend am wybodaeth bellach ac ar gyfer archebu. **Awst** Dim cyfarfod

CANGEN GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

Rhaid archebu ymweliadau yn gynnar gyda M Dunn (01766 890550 brynbedd1@gmail.com). **Mawrth 13 Mehefin:** 2.00 yp ymweld â thŷ Wally a Margaret Barr yng Ngwesbyr ger Llanasa (nifer 12). **Iau 13 Gorffennaf:** 2.00 yp ymweliad i Graig y Castell ac adfeilion castell Dyserth (nifer 20). Dim cyfarfod yn Awst. **Mawrth 19 Medi:** 2.00yp ymweliad â Cholomendy, Afon-wen, Yr Wyddgrug (nifer 12).

NODYN ATGOFFA: Mae'r holl dai a grybwyllir yn y cylchlythyr hwn ac/neu sy'n gysylltiedig â DHDC yn eiddo preifat ac **nid ydynt ar agor** i'r cyhoedd.

GWEFAN

Yn y CCB yn 2015 cytunwyd i ailenwi Grŵp Dyddio Hen Dai Cymreig yn Grŵp 'Darganfod Hen Dai Cymreig'. Roedd hyn i ddiwydd erbyn Ionawr 2016. Rhan bwysig o'r ailfrandio hwn oedd diweddarau ac adolygu'r wefan, ein ffenestr i'r byd. Y cam cyntaf oedd ail-labelu'r holl dudalennau a'r dolennau. Dilynwyd hyn gan gofrestru enw'r etifeddiaeth www.discoveringgoldwelshhouses.co.uk, ac ailgyfeiriwyd yr holl dramwyo i 'Darganfod' i'r safle a ail-labelwyd yn 'Dyddio'. Wedi'r holl dreialon a phroffion, uwchraddiwyd y gofod Gweinyddu, ac ar 1 Ebrill 2017 gweithredodd y safle 'Darganfod' ohono'i hun. Er mwyn tynnu sylw at y newid hwn a'i amlygu, gwnaethpwyd hefyd adolygiad cyflawn o ddiwyg y safle. Bellach, gellir cael gafael yn uniongyrchol ar yr adroddiadau sydd yn y Llyfrgell, drwy ddefnyddio'r Mynegai yn ogystal â'r Silff Lyfrau ac felly hwyluso'r chwilio. Diweddarwyd y wefan gan gynnwys rhaglenni ymweliadau

BRANCH EVENTS: book with branch contacts, usually @ £2.

ANGLESEY-CAERNARFONSHIRE BRANCH

Rep: Peter Masters: datinggoldwelshhouses@gmail.com 01758 750322. Please send any ideas for meetings to Peter.

CONWY BRANCH

Contact: Tony Scharer: tonyscharer@gmail.com 01745 813027. **Tues 20th June** with Martin Cherry: an illustrated talk on the architecture of old houses in North Wales. 2pm at Ann's house in Penrhyn Bay. **Tues 11th July** Guided walk around Denbigh with Tony Scharer. Meet 2pm at St Hilary's Church Tower near the castle in Denbigh. There is a free car-park close by. Duration about 2 hours, distance about 1 mile. **Aug** No meeting.

DENBIGHSHIRE BRANCH

Contact: Janice Dale: jadale22@hotmail.co.uk 01490 440427 **Fri 16th June** at a member's house (details from Janice) – numbers strictly limited to 10. No meetings in July or August. **Thurs 7th Sept** at a member's house. **Thurs 5th Oct** at a member's house. **Thurs 9th Nov** Cynwyd Youth Hostel (tbc).

MERIONETH BRANCH

Contact: John Townsend: john@thetownsends.org.uk 01341 430262. The **June** event has not yet been confirmed. Please check the 'Visits' page on DOWHG website for up-to-date information. **Sun 23th July** at 2.30pm: Merioneth Branch Summer Social event at Bodwylan, Llwyngwrl. Transport will be arranged from Llwyngwrl carpark. Please contact John Townsend for further information and to book. **Aug** No meeting.

NORTH EAST WALES BRANCH

Essential to book visits early with M Dunn (01766 890550 brynbedd1@gmail.com). **Tues 13th June:** 2.00 pm visit to Wally & Margaret Barr's home in Gwespyr near Llanasa (max 12). **Thurs 13th July:** 2.00 pm visit to Craig y Castell and castle remains, Dyserth (max 20). No meeting in August. **Tues 19th Sept:** 2.00pm visit to Colomendy, Afonwen, Mold (max 12).

REMINDER: all the houses mentioned in this Newsletter and/or linked with DOWHG are private property and are **NOT** open to the public.

WEBSITE

At the 2015 AGM it was agreed to rename the Dating Old Welsh Houses Group 'Discovering Old Welsh Houses'. This was to be achieved by Jan 2016. An important part of the re-branding has been updating and revising the website, our window to the world. The initial process was to re-label all of the pages and links. This was followed by the registering of the domain name www.discoveringgoldwelshhouses.co.uk, and all traffic to 'Discovering' was redirected to the relabelled 'Dating' site. After trials and testing the Server space was upgraded and on 1st April 2017 The 'Discovering' site went live on its own account. In order to make this change noteworthy and stand out, a complete revision of the site's appearance was also implemented. Reports in the Library can now be accessed directly from their Index as well as the Bookshelf, making searches easier. The website has been updated with the respective Branch visits programmes

Canghennau ac ychwanegwyd dalen newydd at y dyddiadur ymweliadau ar gyfer Cangen newydd Gogledd Ddwyrain Cymru.

O Fai 1 2017 ymlaen mae'r holl weithgarwch ar gyfer Dyddio Hen Dai Cymreig wedi cael ei ailgyfeirio at wefan 'Darganfod'. Mae hyn yn cwblhau y broses o ailnewi ac ailbroesu mewn pryd ar gyfer CCB Mehefin 2017.

Peter Masters

LLAWER O DDIOLCH i Gangen Conwy am eu cyfraniad at yr argraffiad hwn o'r cylchlythyr.

FFRAMIO COED

Ar 28 Chwefror, cafodd aelodau Cangen Conwy sgwrs hynod o ddiddorol ar 'Fframio Coed' gan Tony Scharer. Eglurodd y gwahaniaethau rhwng fframiau nenffyrch, fframiau blwch a fframiau pyst a chyplau. Dangoswyd lluniau, diagramau ac amrywiaeth o offer a ddefnyddid i ffurfio'r coed a'u huniadau. Dilynydd hyn gan sesiwn ymarferol pan adeiladwyd ffrâm fechan o ran maint a oedd yn cynnwys y tri steil.



Ffrâm goed / Timber frame

RHESTRAU

Cyn 12 Ionawr 1858, roedd profi Ewyllysiau a chaniatáu Llythyrâu Gweinyddu yng Nghymru a Lloegr yn gyfrifoldeb y llysoedd eglwysig. Roedd nifer o'r llysoedd hyn hefyd am gael rhestrau wedi eu ffeilio. Golygai hyn restr o nwyddau personol a symudol yr ymadawedig. Nid oedd yn cynnwys eiddo tiriog gan y trafodid hyn fel arfer gan yr Ymddiriedolwyr. Lluniwyd y rhestrau hyn gan brisiwyr a oedd naill ai yn berthnasau neu yn bobl leol.

Roedd y rhestrau hyn yn ein galluogi i ail-greu bywyd beunyddiol y bobl yr oedd y nwyddau yn eiddo iddynt. Weithiau fe'u dynodwyd ar sail stafell i stafell. Maent yn rhestru'r dodrefn: mae'r rhain yn rhoi cipolwg i ni o dechnoleg y cyfnod drwy offer hwsmonaeth a chelfi tŷ a theulu; maent yn rhoi gwybodaeth am arferion ffermio – yr anifeiliaid a gedwid, y cnydau a dyfid a'r cynnyrch a gynhyrchwyd megis menyng, caws a chwrw.

Mae'r geiriau a ddefnyddid yn aml yn amrywio yn eu sillafiad a rhaid eu deall yn ôl eu cyswllt gan fod geiriau yn amrywio

and a new page has been added to the visits diary for the new North East Wales Branch.

As from 1st May 2017 all traffic to Dating Old Welsh Houses has been re-directed to the 'Discovering' website. This completes the renaming and upgrading process in time for the June 2017 AGM.

Peter Masters

MANY THANKS to the Conwy Branch for their contributions to this issue of the newsletter.

TIMBER FRAMING

On 28th February, the Conwy Branch listened to an extremely interesting talk about 'Timber Framing' by Tony Scharer. He explained the differences between cruck frames, box-frames and post and truss frames. We were shown pictures, diagrams and a variety of tools which would have been used to shape the timbers and their joints. This was followed by a practical session during which we constructed a reduced size frame which included all three styles.



Sgwrs am waith y Grŵp i WI Cilcain / A talk about the Group's work to Cilcain WI

INVENTORIES

Before 12th January 1858, the proving of Wills and the granting of Letters of Administration in England and Wales was the responsibility of ecclesiastical courts. Many of these courts also required an inventory to be filed. This was a list of the deceased's personal and moveable goods. It did not include real estate as this was usually dealt with by Trustees. The Inventory was compiled by appraisers who were either relatives or local people.

These inventories enable us to reconstruct the everyday lives of the people who owned the goods. Sometimes they were itemised on a room-by-room basis. They list the furniture; they give an insight into the technology of the times by way of the implements of husbandry and household gadgets; they provide information about farming practices – the animals kept, crops grown and products made such as butter, cheese, beer and ale.

The words used often vary in spelling and must be understood in the light of their context because words do

yn eu hystyron mewn gwahanol wledydd. Ysgrifennwyd yr oll o'r rhestrau hyn yn wreiddiol mewn Saesneg, a hyd yn oed pe buasai ganddynt fersiynau Cymraeg y cyfnod, mae rhai o'r rhain bellach wedi mynd ar goll. Mae rhai rhestrau yn neilltuoel o ran manylion. Beth am ganolbwyntio ar y gegin (*kitchen, kichin, kighing*).

Buasai'r rhan fwyaf o'r coginio yn digwydd ar yr aelwyd agored, a buasai rhedeg cegin yn gofyn am ystod o sgiliau. Roedd hyn yn cynnwys rheoli'r tân i gynnal gwahanol fathau o wres; symud pentyrrau o golsion o amgylch yr aelwyd i roi nifer o danau gwahanol; gosod gradell dros un pentwr o'r glo ar gyfer rhostio; padell ar drybedd dros bentwr arall i'w ddefnyddio ar gyfer ffrio; a glo wedi ei bentyrru o dan 'degell pobi' gyda glo ar ben ei gaead ar gyfer pobi cacennau neu basteiod (gweler y llun ar dudalen 1: o'r Chwith: tegell pobi, sgiled, andirons gyda thrybell, tegell pobi a gridyll/maen (ar y dde uchaf)).



Hastener neu ffwrn agored / A hastener or dutch oven
Roedd breichiau haearn neu graeniau yn siglo, ac yn ymwithio allan o'r garreg neu'r fricsen ar gyfer dal potiau enfawr. Drwy godi neu ostwng y potiau, neu eu symud tuag at i mewn neu at allan, fe ellid rheoli'r tymheredd. Ar gyfer goleuo a chynnal y tân, ar gael byddai blychau tân, megis a gefel. Mae'r eitemau a ddefnyddid ar gyfer coginio, ac sy'n cael eu crybwyll yn aml mewn rhestrau yn cynnwys: cadwyni a bachau ar gyfer hongian pot uwchben tân (*rackans*); bachau (*trammells*); cigweiniau; pentanau haearn (*andirons*); trybedau; haearn ar draws tân i gynnal potiau (*brandreds*); padelli metel gyda thair coes cwta a handlen hir ar gyfer ffrio (*sgiledi*); ffyrc hir ar gyfer trafod cig (*ffyrc bïff*); desglau ar gyfer cadw bwyd yn gynnes (*desglau chafing*); stand neu adlewyrchudd ar gyfer canolbwyntio gwres y tân ar ddarn o gig wrth ei goginio (*hasteners neu ffyrnau agored*); *gradelli/meini crasu*.

Roedd y celfi eraill a ddefnyddid ar gyfer paratoi bwyd, gweini a storio bwyd yn cynnwys eitemau megis: jariau pridd, neu hanner barilau/tybiau, a ddefnyddid yn y llaethdy (*stunds/stunts*); cwpanau yfed (*noggins*); platieu a desglau piwtar; platieu mawr ar gyfer gweini cig (*chargers*); platieu tenau, gwastad o bren neu biwtar ar gyfer bwyta'r cig (*trenchers*); potiau pres; costreli ac amrywiaeth o lestri pren;

have different meanings in different contexts. All of these Inventories were originally written in English, and even if the words had Welsh equivalents at the time, some of those have now been lost. Some inventories are outstanding in detail. Let's focus just on the kitchen (*kichin, kighing*).

Most of the cooking would have been done on an open hearth, and running a kitchen would have required a range of skills. It included managing the fire to produce different types of heat; moving piles of embers around the hearth to provide several separate fires; setting a gridiron over one pile of coals to be used for broiling; a pan on a trivet over another pile to be used for frying; and coals piled under a 'bake kettle' with coals on top of its lid to bake cakes or pies (see the picture on p1: (from L) bake kettle, skillet, andirons with trivet, bake kettle and griddle/girdle (top right)).



'Tegell pobi' (heb ei gaead) yn cynnwys pastai (ar y dde) / A 'bake kettle' containing a pie (with its lid removed) (R)
Swinging iron arms or cranes, which protruded from the surrounding stone or brick, held massive pots. By raising or lowering the pots, or moving them inwards or outwards, the temperature could be controlled. For lighting and managing the fire, there would have been tinder boxes, bellows and tongs. Items used for cooking, and often mentioned in inventories, include: *rackans* (chains or hooks for suspending a pot over a fire); *trammells* (hooks); *spits*; *andirons* (firedogs); *trivets*; *brandreds* (for standing across a fire to support pots); *skillets* (metal pans with three short legs and a long handle used for frying); *beef forks* (long forks for handling meat); *chafing dishes* (dishes used to keep food warm); *hasteners* or *dutch ovens* (stands or reflectors used for concentrating the heat of the fire on a joint of meat during cooking); *griddles/girdles* and *bake stones*.

Other equipment used for food preparation, serving and the storing of food included items such as: *stunds/stunts* (earthenware jars, or half barrels/tubs, used in the dairy); *noggins* (drinking-cups); pewter plates and dishes; *chargers* (large platters for serving meat); *trenchers* (thin, flat wooden or pewter platters from which food was eaten); brass pots; flagons and a variety of wooden vessels;

powlliau gyda chaeadau a handleni ffurf clust ar gyfer uwd, cawl, potes ayb. (*pottingers/porringers*); potiau metal bach ar gyfer berwi, gyda handlen a thair coes (*posnets*); cynhwysyddion neu flychau ar gyfer halen neu gonfennau eraill (*salts*); hidlwyr pren gyda gwaelod llin ar gyfer hidlo llaeth (*sile dishes*); cwpan ar gyfer diod o laeth poeth wedi ei geulo a chwrrw neu win a'i gymysgu â siwgr a sbeisys (*cypanau poset*); cwpanau ar gyfer pwdin hufen wedi ei chwipio â siwgr a sieri (*cwpanau/desglau silabwb*); jygiau saws fel arfer o fetel – ni ddefnyddid cwpanau tan y 18fed ganrif (*soseri/sawcers*); ystenu llaeth bach o bren (*piggins*); cafnau neu fareli ar gyfer bragu (*kives/keives*); noeau (ar gyfer tyllino bara); casgenni bychain ar gyfer hylifau neu fenyn (*ffircynau/ffyrkins*); casgenni ar gyfer gwin neu gwrw (*butts*); ar gyfer gwneud menyn (*corddwyr*).

pottingers/porringers (bowls with covers and ear-shaped handles for porridge, soup, pottage etc.); *posnets* (small metal pots for boiling, with a handle and three feet); *salts* (containers or boxes for salt or other condiments); *sile dishes* (wooden strainers with linen bottoms for straining milk); *posset cups* (for a hot milk drink curdled with ale or wine and mixed with sugar and spices); *syllabub/silaboob cups/dishes* (for a whipped cream dessert mixed with wine or sherry); *saucers/sawcers* (sauceboats usually made of metal – they were not used to hold cups until the 18th century); *piggins* (small wooden milk pails); *kives/keives* (vats or barrels for brewing); *kneading troughs* (for breadmaking); *firkins/ffyrkins* (small casks for liquids or butter); *butts* (casks for wine or ale); *churns/chyrns* (for making butter).



Noggin



Piggin



Firkin



Posnet

Gall fod bwyd yn cael ei storio mewn cypyrddau/cobards/cupperds *livorie* (cypyrddau bychain at storio bwyd gyda drysau tyllog ar gyfer awyru) neu *polkes* (cypyrddau); a defnyddid *stillages* (stolion isel neu baledau) i godi eitemau oddi ar y llawr.

Gill Jones, Conwy



Cwprwdd *livorie* / *Livorie* cupboard

Food may have been stored in *livory/livorie* cupboards/*cobards/cupperds* (small food storage cupboards with perforated doors for ventilation) or *polkes* (cupboards); and *stillages* (low stools or pallets) were used for raising items off the floor.

Gill Jones, Conwy

Council for
British Archaeology



PURCELL



Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient
and Historical Monuments of Wales



MARC FITCH FUND